SEAS

Registered Charity Number: 1189761

# Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chod Ymddygiad.

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**: Mae SEAS wedi ymrwymo i gyfle cyfartal a’i nod yw sicrhau bod yr holl gyfranogwyr presennol a chyfranogwyr posibl, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, waeth beth fo’u rhyw, oedran, anabledd, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a sifil partneriaeth, ailbennu rhyw neu statws cymdeithasol.

*Sylwer, efallai y bydd terminoleg forwrol a gydnabyddir yn rhyngwladol yn cael eu defnyddio yn ystod gweithgareddau SEAS.*

**Cod Ymddygiad:** Mae SEAS yn disgwyl i bawb ddangos parch a dealltwriaeth at ei gilydd, trin pawb yn gyfartal ac ymddwyn mewn modd sy’n adlewyrchu egwyddorion SEAS.

Ni fydd ymddygiad neu iaith sarhaus, ymosodol neu wahaniaethol, neu ddiffyg parch at bobl eraill neu eiddo yn cael ei oddef. Dylid adrodd ar gamymddwyn i’r ymddiriedolwyr a bydd o bosibl yn arwain at gamau disgyblu.

Disgwylir i bawb yn SEAS:

- Drin pawb gyda pharch a dealltwriaeth, waeth beth yw eu hoedran, anabledd, hunaniaeth rhyw, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

- Osgoi’r defnydd o iaith y gall rhai ei gweld yn sarhaus neu a all beri gofid.

- Blaenoriaethu diogelwch a lles cyfranogwyr.

- Hyrwyddo cwrteisi at eraill bob amser.
- Defnyddio’r gweithdrefnau lle bo pryder neu anghydfod gwirioneddol.
- Adnabod cyfraniad gwirfoddolwyr a hyfforddwyr.

Gall cyfranogwyr SEAS ddisgwyl teimlo bod croeso iddynt a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a’u trin yn deg, bod rhywun yn gwrando arnynt a’u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, a’u bod yn rhan o benderfyniadau o fewn SEAS, ac yn cyfrannu atynt.

Dyddiad: Chwefror 2021.

*Perchennog y Ddogfen: SEAS Sailability*
*Cymeradwywyd y ddogfen gan: SEAS Sailability*
*Dyddiad cymeradwyo’r Polisi: Mawrth 2021*
*Dyddiad adolygiad Nesaf: Ion 2023*
*Dyddiad adolygiad Nesaf: Ion 2025*
*Dyddiad adolygiad Nesaf:*
*Dyddiad adolygiad Nesaf:*